

## TUDALEN 67

Cofnodion cyfarfod o **Bwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau Cyngor Dinas Bangor** a gynhaliwyd o bell, drwy fideo-gynadledda Zoom, am 6.30pm nos Lun, 11 Ebrill 2022.

**YN BRESENNOL:** - Cynghorydd Mair Rowlands (Cadeirydd), Cynghorwyr Medwyn Hughes, Huw Wyn Jones, Enid Parry, Elin Walker Jones, Nigel Pickavance, Kieran Jones (heb bleidlais), Les Day (heb bleidlais), Eu Teilyngdod y Maer (heb bleidlais).

Swyddogion:- Martin Hanks (Clerc y Dref dros dro), Delyth Davies (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion).

### **260/22 YMDDIHEURIADAU**

Dim.

### **261/22 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim.

### **262/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Dim.

### **263/22 I DRAFOD DYFODOL MAES CHWARAE'R PIER**

#### **i. Ystyried Adroddiad ar yr Offer Chwarae a'r Posibilrwydd o'i Symud**

Adroddodd Clerc y Dref nad oedd yr arbenigwr a wnaeth yr archwiliad gwreiddiol wedi anfon adroddiad ysgrifenedig a'i fod bellach wedi gadael y cwmni. Roedd y cwmni wedi cynnig anfon archwilydd arall, ar dipyn o gost ychwanegol. Yn y cyfamser, roedd Clerc y Dref wedi cysylltu â Swyddog Chwarae mewn awdurdod lleol cyfagos. Er nad oedd ei adroddiad ysgrifenedig wedi cyrraedd, roedd ei adroddiad llafar yn glir: nid yw'r offer yn bodloni canllawiau presennol; efallai y byddai modd ei weldio a'i ailbeintio, ond heb ei symud i'w drin yn iawn, bydd yn dechrau rhydu eto. Ond y broblem fawr yw'r llawr: byddai angen llawr newydd a hynny ar gost o rhwng £25k a £40k.

Dylid tynnu'r ffens fawr hefyd ond gellid cadw'r ffens wrth ochr y bwyty.

**PENDERFYNWYD** tynnu'r offer a'r ffens bresennol.

#### **ii. Penodi Pensaer Tirwedd**

Adroddodd Clerc y Dref mai'r cam nesaf fyddai cael cynlluniau manwl gan benseiri tirwedd. Roedd yr aelodau'n gytûn y dylid ystyried yr ardal gyfan, h.y. maes chwarae arall, y maes parcio, storfa'r cyngor. Gelid gofyn am y cynlluniau hyn yn awr fel bod opsiynau ar gael i'w cyflwyno i'r Cyngor newydd wedi'r etholiad.

## **TUDALEN 68**

**PENDERFYNWYD** comisiynu adroddiadau manwl i ystyried dyfodol y lle chwarae, fel rhan o'r ardal gyfan y tu allan i'r Pier.

Ar nodyn ehangach, awgrymwyd y gellid ystyried parciau eraill ym Mangor ar yr un pryd. Llongyfarchwyd y Cynghorydd Walker Jones ar y gwaith ardderchog sydd wedi cael ei wneud ym maes chwarae Maes Tryfan. Dywedodd y Cyng Walker Jones fod hyn yn ganlyniad i waith tîm ardderchog gyda'r gymuned leol. Mae grantiau ar gael, ac fel y gwelwyd ym Maesgeirchen hefyd, mae cael y gymuned i gymryd rhan yn allweddol i sicrhau cyllid a gweld y prosiect yn mynd yn ei flaen.

**PENDERFYNWYD** cynnig i'r Cyngor newydd eu bod yn edrych ar bob un o barciau Bangor fel rhan o'u rhaglen.

## **264/22 CEFNOGI DIGWYDDIADAU A DATHLIADAU PIER Y GARTH**

### **i. Pier y Flwyddyn**

Llongyfarchodd y Pwyllgor bawb a oedd ynghlwm â dyfarnu gwobr Pier Cenedlaethol y Flwyddyn 2022 i Bier Garth Bangor, yn enwedig Ffrindiau Pier Garth Bangor, a gweithwyr Cyngor y Ddinas. Adroddodd Eu Teilyngdod y Maer fod dathliad bychan wedi cael ei gynnal y Sadwrn cynt lle y diolchwyd i'r gwirfoddolwyr a Chyngor y Ddinas.

Adroddodd Clerc y Dref fod awgrym wedi'i wneud i brynu dwy faner fawr i ddathlu'r llwyddiant hwn. Cafwyd trafodaeth am ble i roi'r baneri, yn amlwg dylent fod yng nghyffiniau'r Pier, ond roedd yr aelodau'n teimlo hefyd fod angen arwyddion y tu allan i'r ardal ei hun er mwyn denu pobl i Fangor a'r Pier. Dywedwyd fod y Bartneriaeth yn cynllunio cael arwyddion i Ganol y Ddinas. Roedd Clerc y Dref o'r farn y byddai cael arwyddion twristiaeth brown yn nodi fod Bangor wedi ennill Pier Gorau 2022 yn fan cychwyn.

Arweiniodd hyn at drafodaeth am arwyddion yn y Ddinas. Llongyfarchwyd y Cynghorydd Pickavance am ei ran yn y gwaith ar yr arwydd newydd ochr Llandygai i Fangor a'r gwelyau blodau o'i amgylch. Hoffai'r aelodau weld yr un sylw'n cael ei roi ar y ddwy ffordd arall sy'n dynesu at Fangor, h.y. wrth gylchfan Tesco, a thafarn yr Antelope.

## **PENDERFYNWYD**

- a) prynu baneri i ddathlu gwobr y Pier
- b) gofyn i'r Cyngor newydd ystyried uwchraddio'r arwyddion ar y ddwy ddynesfa arall i Fangor

### **ii. Digwyddiadau**

Roedd Ffrindiau'r Pier wedi gofyn am gefnogaeth Cyngor y Ddinas i drefnu dathliad y Pier yn 126 oed ym mis Mai a digwyddiadau i ddathlu'r Jiwbil Platinwm ym mis Mehefin.

**PENDERFYNWYD** cefnogi'r digwyddiadau hyn ond cyfeirio at y Pwyllgor Cyllid am benderfyniad ar nawdd.

## TUDALEN 69

### iii. Arddangosfa

Roedd arddangosfa ar hanes y Pier wedi cael ei chynnal yn Storiell. Roedd yn arddangosfa ddiddorol, llawn hanes, ond yn anffodus, oherwydd diffyg staff oedd i ffwrdd â Covid, bu'n rhaid cau'r adeilad am rywfaint o'r amser. O ganlyniad, awgrymwyd y gellid symud yr arddangosfa i leoliad arall fel bod mwy o bobl yn cael cyfle i'w gweld.

**PENDERFYNWYD** ystyried symud yr arddangosfa i un o'r lleoliadau canlynol: Neuadd y Penrhyn, Canolfan Deiniol, Pontio.

### 265/22 MATERION ASED AU ERAILL

- Disgwyl amserlen gan Wynedd i dorri'r gwair ar ochr ffyrdd; fel arall mae gan y Cyngor gyllideb ar gyfer y gwaith hwn.
- Problemau'r orsaf bwmpio bron wedi'u datrys.
- Atgyweiriwyd to Neuadd y Penrhyn. Mae defnydd y Neuadd wedi cynyddu'n sylweddol ers mis Ionawr.
- Mae angen peiriant newydd ar y Pier i dderbyn arian parcio.

### 265/22 UNRHYW FATER ARALL

Hwn oedd y cyfarfod olaf i rai Cyngorwyr oedd yn ymddiswyddo y tro hwn. Llongyfarchwyd yr aelodau sydd wedi cael eu haillethol yn barod, a diolchwyd i'r aelodau oedd yn gadael am eu cyfraniadau, dros flynyddoedd lawer yn achos rhai. Dywedodd Eu Teilyngdod y Maer ei fod yn bwriadu trefnu cyfarfod bychan yn Neuadd y Penrhyn cyn hir i ddiolch i bawb yn ffurfiol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.35pm**

ACTING TOWN CLERK – Martin Hanks – CLERC Y DREF DROS DRO